GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

# Gwybodaeth i gleifion

# Angiograffeg fflworesin

# Yr Uned Llygaid

**Beth yw angiograffeg fflworesin?**
Mae hwn yn brawf syml, sy'n golygu tynnu llun o’r pibellau gwaed yng nghefn y llygad ar ôl i liw (*dye*) melyn gael ei chwistrellu trwy wythïen yn eich braich neu'ch llaw.

**Pam mae hyn yn angenrheidiol?**

- Helpu'r meddyg i gadarnhau diagnosis.
- Darparu canllawiau ar gyfer triniaeth os oes angen.
- Cadw cofnod o gyflwr cefn eich llygad.

**Beth mae'r prawf yn ei gynnwys?**

- Mae'r prawf yn cael ei gynnal yn y Clinig Llygaid yn Ysbyty Brenhinol Gwent.
- **Cewch ddiferion a fydd yn cymylu'ch golwg, felly rhaid i chi beidio â gyrru i'r clinig.**
- Yn ystod yr apwyntiad, rhoddir pigiad o liw melyn mewn gwythïen yn eich braich.
- Mae'r lliw yn cyrraedd y llygad o fewn 30 eiliad. Yna bydd cyfres o ffotograffau yn cael eu tynnu wrth i'r lliw fynd i mewn i'r pibelli yng nghefn eich llygad.
- Rydym yn eich cynghori i aros am 15 munud ar ôl y prawf cyn mynd adref.

**A oes unrhyw sgil-effeithiau?**

- Nid yw'r rhan fwyaf o bobl yn teimlo unrhyw effeithiau gwael.
- Yn ystod y pigiad efallai y byddwch chi'n teimlo'n gynnes neu'n profi pwl poeth. Mae rhai pobl yn teimlo ychydig yn sâl neu'n llewygu ond dim ond eiliadau y mae hyn yn ei bara ac yna bydd yn pasio.
- Bydd y lliw yn rhoi arlliw melyn ar eich croen a bydd eich wrin yn troi'n felyn llachar.
  Mae hyn yn hollol normal a gall bara am 2 i 3 diwrnod.
- Ar achlysuron prin iawn, gall cleifion brofi anawsterau â’u hanadlu neu eu cylchrediad a gallai fod angen cymorth y tîm brys arnynt.

**A allaf fwyta ac yfed cyn y prawf?**
Gallwch. Argymhellir bwyta pryd ysgafn cyn y prawf. Os oes gennych ddiabetes, gwnewch yn siŵr eich bod wedi cael digon i'w fwyta.

**A ddylwn i gymryd fy meddyginiaeth arferol?**
Dylech. Dylid parhau â'r holl feddyginiaeth. Dewch â'ch holl feddyginiaeth gyda chi i'r ystafell gamera, yn enwedig mewnanadlwyr a chwistrell GTN.

**A ddylwn i roi gwybod i chi am fy hanes meddygol blaenorol?**

- Dylech, mae hyn yn bwysig iawn.
- Rhowch wybod i ni am unrhyw alergeddau neu unrhyw adweithiau cyffuriau blaenorol a allai fod gennych.
- Os ydych chi'n meddwl y gallech fod yn feichiog, rhowch wybod i'r staff nyrsio/meddygol.
- A oes gennych unrhyw glefyd sylweddol ar yr arennau.

**Ydw i'n gallu gyrru?**

- Na. Bydd y diferion llygaid yn cymylu'ch golwg, felly rhaid i chi beidio â gyrru i'r clinig nac ar ôl y prawf nes bod eich golwg yn dychwelyd i normal.
- Gwnewch yn siŵr bod rhywun yn mynd gyda chi i'r clinig.

**Pryd fyddaf yn gwybod y canlyniadau?**
Ni fyddwch yn cael canlyniadau'r prawf ar unwaith. Bydd yn rhaid astudio'r delweddau yn ofalus. Bydd y meddyg yn rhoi'r canlyniadau i chi yn eich apwyntiad nesaf.

**Apwyntiad**

_______________________ dydd _______________________20_____

am ________________________________________________________

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English".**